# Egwyddorion Ymddygiad ar gyfer Llywodraethwyr

Addysg

**Ysgol …………………………………………………………………**

Er mwyn i lywodraethwyr gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon mae'n bwysig i gael egwyddorion arweiniol.

Dylai llywodraethwyr:

- sicrhau bod eu gweithredoedd yn adlewyrchu'r hyn a ystyrir yn fuddiannau gorau'r ysgol a'i disgyblion;
- mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu'n rheolaidd;
- parchu hawl y corff llywodraethu i drin materion a drafodir mewn cyfarfodydd yn gwbl gyfrinachol gan gadw at egwyddorion y ddeddf diogelu data GDPR 2018;
- parchu hawl y corff llywodraethu i drin rhai materion yn gyfrinachol, gan gyfyngu trafod rhai materion oddi fewn i bwyllgorau neu baneli'r corff llywodraethu yn unig;
- ar ôl eu penodi, mynychu hyfforddiant mandadol neu fel arall a ddarperir gan yr ALl neu'r ysgol;
- ar ôl eu penodi, ymgyfarwyddo gyda gwaith yr ysgol a chadw'r wybodaeth hon yn gyfredol;
- cynnal eu gwybodaeth o bolisi, rheoliadau a chanllawiau addysg cyfredol ac ehangu eu sgiliau trwy gymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer y corff llywodraethu cyfan a digwyddiadau eraill;
- arddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal ac adlewyrchu hynny wrth ddatblygu a chymhwyso'r polisïau y mae'n ofynnol i'r ysgol eu cael mewn perthynas â rhyw, gogwydd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, anabledd neu oedran (fel y diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010);
- gweithredu fel ffrind beirniadol gyda'r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau proffesiynol yn yr ysgol, gan gofio cyfrifoldeb y corff llywodraethu ei hun i hybu cyflawniad addysgol o safon uchel;
- bod yn ymwybodol o, a gweithredu o fewn, cyfyngiadau cyfrifoldebau'r corff llywodraethu a, ble bo angen, chwilio am a rhoi ystyriaeth ddigonol i wybodaeth, cyngor a chanllawiau proffesiynol;
- parchu'r cyfrifoldeb sydd ar y pennaeth i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd i reoli'r ysgol;
- ufuddhau i gyd gyfrifoldeb trwy gefnogi penderfyniadau democrataidd y corff llywodraethu;
- datblygu gweledigaeth eglur ar gyfer yr ysgol gyda chydweithwyr ar y corff llywodraethu;
- sicrhau bod eu cyfraniad i benderfyniadau corff llywodraethu yn canolbwyntio ar yr hyn sydd o fudd gorau i'r disgyblion, a bod yn ymwybodol y dylai lles disgyblion fod yn flaenoriaeth bob amser o ran amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a helpu pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn;

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

- annog a chyfranogi mewn systemau sy'n darparu cyfathrebu agored ac effeithiol, gan helpu i sefydlu gweledigaeth eglur o ddatblygiad yr ysgol;
- bod yn ymwybodol bod pob llywodraethwr yn gyfartal a pharchu barn eraill ac adlewyrchu hynny yn ei ymddygiad wrth ddelio gyda chyd lywodraethwyr;
- bod yn ymwybodol eu bod yn atebol i rieni ac eraill yn y gymuned leol a cheisio dyfeisio deialog effeithiol gyda phawb sydd â diddordeb yng ngweithrediad a safonau'r ysgol;
- ufuddhau i bob protocol a gweithdrefn a gytunir gan y corff llywodraethu;
- bod yn agored, gonest, gwrthrychol, teg a diduedd ac yn barod i wynebu'r rhagfarnau personol a all amharu ar wneud penderfyniadau gwybodus gan gynnwys gwrthdaro buddiannau.

Mabwysiadwyd y Cod Ymddygiad uchod a llofnodwyd gan y Cadeirydd ar ran aelodau'r Corff Llywodraethol.

Cadeirydd ……………………………………….

Dyddiad …………………………………………..